Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**

# Rheolwyr gofal cartref ar y Gofrestr - 1 Ebrill 2021

## Beth yw'r pwyntiau allweddol?

- Bu'n rhaid i reolwyr gofal cartref gofrestru gyda ni ers 2014.
- Mae 977 o reolwyr wedi'u cofrestru, cynnydd o gymharu â 913 y llynedd.
- I gefnogi'r sector yn ystod pandemig COVID, nid ydym wedi tynnu unrhyw un o'r Gofrestr am fethu adnewyddu eu cofrestriad yn y flwyddyn ddiwethaf.

## Beth yw'r tueddiadau pum mlynedd?

- Mae nifer y rheolwyr gofal cartref ar y Gofrestr wedi cynyddu 58% er 2016.
- Ni fu newid i gymhareb y menywod a dynion, sef tua 4:1.
- Mae canran y rheolwyr sy'n gweithio yn y trydydd sector wedi cynyddu o 23% yn 2016 i 29% eleni.
- Mae'r canran sy'n gweithio yn y sector preifat wedi gostwng o 62% yn 2016 i 52% eleni.

## Faint sydd wedi ymuno ac ymadael â'r Gofrestr?

- Ymunodd 136 o reolwyr â'r Gofrestr ac ymadawodd 72 yn y flwyddyn ddiwethaf.
- Roedd 40% o'r bobl a adawodd heb dalu'u ffi flynyddol.
- Nid oedd 15% ohonynt yn gweithio ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru mwyach.
- Arhosodd 26% ohonynt ar y Gofrestr mewn rôl wahanol.
- Roedd 4% ohonynt wedi ymddeol.

## Pa gymwysterau sydd gan reolwyr?

- Mae gan bob rheolwr gofal cartref gymhwyster perthnasol.
- Mae gan 53% ohonynt Ddiploma Lefel 5 gyfredol y QCF mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
- Mae gan bob un o'r lleill NVQ Lefel 4 neu gymhwyster cyfatebol derbyniol arall.

## Ble caiff rheolwyr eu cyflogi?

- Mae 52% ohonynt yn gweithio yn y sector preifat
- Mae 29% ohonynt yn gweithio yn y trydydd sector
- Mae 14% ohonynt yn gweithio mewn gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol
- Mae 27% o reolwyr wedi bod yn eu rôl bresennol ers dros 10 mlynedd
- Mae 49% o reolwyr wedi newid i rôl newydd o fewn y pum mlynedd diwethaf.

## Beth yw proffil rheolwyr?

- Roedd 791 o reolwyr yn fenywaidd a 186 ohonynt yn wrywaidd
- Mae 96% o reolwyr yn bobl wyn, gwyn Prydeinig, gwyn Cymreig neu wyn Gwyddelig
- Mae 74% o reolwyr dros 40 oed ac mae 47% ohonynt dros 50 oed
- Mae 39% o reolwyr ynsiarad rhywfaint o Gymraeg neu'n rhugl
- Mae gan 1.5% o reolwyr anabledd.